

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	20 Gorffennaf 2026	
Swyddog Arweiniol	Matt Powell, Dirprwy Glerc	
Swyddog Cyswllt	matthew.powell@flintshire.gov.uk	
Pwnc	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol (Adroddiad Blynyddol) y Pwyllgor Safonau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys crynodeb o waith y Pwyllgor Safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

3. Ni fydd yr Adroddiad Blynyddol, sef cofnod y Pwyllgor Safonau o'i weithgareddau ei hun dros y 12 mis diwethaf, yn cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio.

GWYBODAETH

4. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi llunio adroddiad blynyddol ers ei sefydlu, ac ers 2021 mae hefyd wedi bod yn ddyletswydd statudol i lunio adroddiad o'r fath. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn nodi unrhyw faterion sydd wedi codi.
5. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau gwrdd ar 14 Ebrill 2026, pan ystyriodd a chymeradwyodd adroddiad blynyddol am yr unfed tro ar hugain. Roedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026).
6. I grynhoi, yn ystod 2025/26-
 - i) Parhaodd y Pwyllgor Safonau i adolygu'r codau a'r protocolau o fewn y Cyfansoddiad.
 - ii) Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("PSOW"), yn ogystal ag adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru, i nodi unrhyw dueddiadau neu negeseuon defnyddiol y gellid eu cyfleu drwy'r clerc i aelodau'r Awdurdod Tân.

- iii) Roedd y Pwyllgor Safonau yn monitro presenoldeb aelodau ar ran yr awdurdod.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau statudol i Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â safonau ymddygiad sy'n cynnwys canllawiau ar y materion sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.
8. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd, ymhlith pethau eraill, yn awgrymu ei bod yn arfer da i bwyllgorau safonau rannu eu hadroddiadau blynyddol gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ARGYMHELLION

- i) Bod yr Awdurdod yn derbyn ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.
- ii) Bod y Clerc neu'r Dirprwy Glerc yn rhoi copi o'r Adroddiad Blynyddol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ATODIADAU

- Yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.
- Canllawiau Llywodraeth Cymru

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyllideb ar gyfer 2024/25	Gellir cynhyrchu'r adroddiad blynyddol o fewn y gyllideb. Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Mae gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd o dan adran 63 Deddf Llywodraeth Leol 2021 i gynhyrchu adroddiad blynyddol, y mae'n rhaid i'r awdurdod tân ei ystyried o fewn 3 mis i'w dderbyn.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Cynhyrchir adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau mewn fformat dwyieithog
Risgiau	Dylai gwaith y Pwyllgor Safonau a ddisgrifir yn ei adroddiad blynyddol helpu i leihau'r risg y bydd Aelodau'r Awdurdod yn ymddwyn mewn modd sy'n anghyson â'r cod ac felly ag arfer gorau.